



Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth



Cylchgronau Cymru
Welsh Journals Online

Awdur
Author

Aled I. R. Wiliam.

Teitl erthygl
Article title

"Y deddfgronau Cymraeg"

Teitl cylchgrawn
Journal title

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru
National Library of Wales journal

Rhifyn
Issue

Cyf. 8, rh. 1 (Haf 1953), p. 97-103.

url

Crëwyd a chyhoeddwyd y fersiwn digidol hwn o'r cylchgrawn yn unol â thrwydded a roddwyd gan y cyhoeddwr. Gellir defnyddio'r deunydd ynddo ar gyfer unrhyw bwrpas gan barchu hawliau moesol y crewyr.

The National Library of Wales has created and published this digital version of the journal under a licence granted by the publisher. The material it contains may be used for all purposes while respecting the moral rights of the creators.

JISC



Y DEDDFGRONAU CYMRAEG

Copiau o un o'r tri *Dull* o Gyfraith Hywel—Llyfrau Blegywryd a Chyfnerth a Llyfr Iorwerth (neu Lyfr Gwynedd)—yw'r mwyafrif o'r llyfrau cyfraith Cymraeg, and fe geir mewn llawer ohonynt, yn ogystal â'r prif destun, ddefnyddiau eraill o amryw fathau, sef yr hyn a elwir yn y llyfr *Ancient Laws and Institutes of Wales* yn 'Anomalous Laws'. Nid yw'r corff mawr hwn o gyfraith ychwanegol i gyd o'r un ansawdd nac o'r un pwysigrwydd, ond y mae'r rhan fwyaf o adrannau cyntaf yr *Ancient Laws* (Book IV-VIII) i'w gweld mewn atodiadau i'r testunau hynaf sydd gennym; dyma ddarn gwerthfawr o gyfraith y drydedd ganrif ar ddeg. Y mae gennym hefyd dystiolaeth bod i'r defnydd pwysig hwn ei draddodiad dogfennol ei hunan a'i fodolaeth annibynnol y tu allan i lawysgrifau'r *Dulliau*.

Byddai cyfreithwyr Cymru trwy gydol y canrifoedd yn arfer dethol a chopio pethau a farnent yn werth eu cadw, gan ychwanegu eu sylwadau a'u hesboniadau eu hunain; deuai rhai o'r gweithiau hyn wrth reswm yn fwy adnabyddus na'i gilydd, ac fe fyddid yn eu copio hwythau yn eu tro a'u casglu at ei gilydd. O dipyn i beth, trwy eu mynych gopio ynghyd, gallai gweithiau llawer o ddynion fagu rhyw unoliaeth ym meddyliau'r copiwr, a dod i'w hystyried yn llyfr cyfraith, ochr yn ochr â'r *Dulliau* safonol. Llyfrau cyfansawdd o'r math hwn yw llawysgrifau Peniarth 34 a 35, ac enghraifft ddiweddarach o rywbeth tebyg yw Wynnstay 38. Ail gyfrol *Deddfgrawn* William Maurice o Lansilin yw'r olaf, ac y mae ei enw yntau ar ei waith yn gwneud y tro yn iawn wrth gyfeirio at gasgliadau eraill o gyfraith ychwanegol.

Deddfgrawn a ysgrifennwyd yn y bymthegfed ganrif yw Pen. 34, ac y mae arno olion tacluso a threfnu. Ac eithrio *Deddfgrawn* William Maurice, y llawysgrif hon a'i chopiau sy'n cynnwys y casgliad llawnaf (yn wir, yr unig gasgliad cyflawn a chryno) o'r prif ddefnyddiau a geir yn yr atodiadau i'r *Dulliau*. Rhoddir isod fynegai i gynnwys y llawysgrif a'i dalennau yn y drefn y rhwymwyd hwy gan y Llyfrgell Genedlaethol, sef yn ôl rhediad rhesymegol y testun, ac nid yn ôl yr hen rifau sydd arnynt (rhifau William Maurice). Ochr yn ochr â hyn fe roddir rhifau'r tudalennau cyfatebol yn llawysgrifau Peniarth 163 a 224. Fe welir bod toriadau yn rhediad rhifau'r tair colofn, h.y., nid yw trefn rhifau unrhyw un o'r tair llawysgrif yn dynodi trefniant rhesymegol ar y testun. Y mae dalennau Pen. 34 wedi'u casglu yn unarddeg o afaelion, a chwe dalen sydd ymhob gfael, ac fe sylwir bod tor-rhediadau'r rhifau yn y tair colofn yn cyfateb i ddalennau olaf gfaelion yn Pen. 34. Er mwyn hwylustod fe ddsberthir y gfaelion o dan lythrennau yn ôl tor-rhediadau'r rhifau, fel hyn: $a=1-6, 7-12, 13-18$; $b=19-24, 25-30$; $c=49-54, 55-60, 61-66$; $d=31-36$; $e=37-42$; $f=43-48$.

PENIARTH 34		PEN. 163	PEN. 224
1r-7v	<i>a</i> Rhaglith & Tair Colofn Cyfraith	... 119-130	424-448
7v-8v	Trioedd, Adran (i) 130-132	449-453
8v-18v	Damweiniau, Adran (i) 132-152	454-495

19r-30v	<i>b</i>	Damweiniau, Adran (i) <i>parhad</i>	176-195	495-544
		Damweiniau, Adran (ii)			
49r-57v	<i>c</i>	Damweiniau, Adran (ii) <i>parhad</i>	...	- - -	672-709
58r-62r		Mechni, Adran (i)	- - -	710-730
62r-63v		Trioedd, Adran (ii)	- - -	731-738
63v-66v		Mechni, Adran (ii)	- - -	738-751
31r-32v	<i>d</i>	Mechni, Adran (ii) <i>parhad</i>	195-198	544-552
32v-35r		Mechni, Adran (iii)	198-202	552-563
35r-36v		„ „ „	- - -	563-570
37r-38r	<i>e</i>	Mechni, Adran (iii) <i>parhad</i>	165-167	570-576
38v-42v		Cynghawsedd	167-175	577-597
43r-48v	<i>f</i>	Cynghawsedd, <i>parhad</i>	152-165	597-628

g (gafael goll) diwedd Cynghawsedd

Fe sylwir ymhellach fod rhifau'r tair colofn yn rhedeg yn syth ymlaen o'r ddalen olaf yn *b* hyd y ddalen gyntaf yn *d*; nid oes i *c* unrhyw arbenigrwydd nac unoliaeth a allai fod yn rheswm dros ei ddioli, a chan na ellir credu iddo gael ei symud o'i le fel sypyn o ddalennau trwy gyd-ddigwyddiad yn y ddwy llawysgrif arall, Pen. 163 a 224, rhaid bod perthynas y tair llawysgrif â'i gilydd yn agos iawn.

Y mae'n eglur mai adfer trefn wreiddiol dalennau Pen. 34 trwy ddilyn rhifau newydd Gwenogvryn Evans a wnaeth y Llyfrgell Genedlaethol wrth ei rhwymo fel hyn; a dyma'r tro cyntaf ers canrifoedd y bu'r llawysgrif hon yn ei threfn iawn. Mae'r llinell olaf ar y ddalen 48v, sef diwedd yr afael olaf, yn gorffen ar ganol brawddeg, a rhaid bod y ddalen y bu diwedd y frawddeg honno arni wedi'i cholli, a honno'n ddalen gyntaf gafael. Os collwyd gafael gyfan oherwydd nad oedd y llawysgrif wedi'i rhwymo'n iawn y mae'n debyg bod y gafaelion eraill yn rhydd hefyd.


Bwrier yn awr eu bod hwythau'r gafaelion eraill wedi syrthio allan o'u trefn a'u casglu ynghyd rywsut rywsut, yn y drefn *a f e b d c*. Petai rhywun wedi copïo'r llawysgrif tra bu yn y drefn honno byddai ei gopi'n debyg iawn i Pen. 163; ac o gofio bod honno'n anghyflawn (brawddeg ar ei hanner sydd ar waelod y tudalen olaf) fe all mai Pen. 163 oedd y copi hwnnw, os caniatawn fod y copiwr yn arall-eirio ychydig hwnt ac yma.

Bwrier eto fod rhywun wedi mynd ati'n ddiweddarach i geisio adfer trefn wreiddiol Pen. 34, a chasglu'r gafaelion fel hyn: *a b d e f c*; dyma rediad sydd dipyn yn fwy rhesymegol. Yn y drefn hon yr oedd Pen. 34 pan wnaeth Roger

Morys ei gopi ohoni yn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg, oherwydd dyna yw trefn Pen. 224 hefyd, copi o llawysgrif Roger Morys a wnaed gan John Jones o'r Gelli Lyfdy rhwng 1604-6.¹ Mae llawysgrif Roger Morys erbyn hyn ar goll, ond yr oedd ar gael yn amser William Maurice, oherwydd iddo yntau ei chymharu air am air â Pen. 34 a 224, wrth baratoi ei *Ddeddfgrawn*. Pan oedd John Jones yn copïo llawysgrif Roger Morys, fodd bynnag, rhaid ei fod wedi sylwi nad oedd yr hyn sydd yn *c* yn dilyn yn naturiol ar ôl cynnwys *f*, ac fe adawodd y dalennau 636-671 yn weigion yn Pen. 224, fel petai'n tybio bod bwlch yn y testun. Fe welodd hefyd nad oedd y bennod ar Gynghawsedd yn gyflawn, a rhoes ddiwedd glo iddi ar y tudalennau 629-635. Copiwyd Pen. 224 i gyd gan William Maurice yn Wynnstay 37, cyfrol gyntaf ei *Ddeddfgrawn*, ond fe ddileodd y diwedd glo i'r Cyngawseddau pan welodd nad oedd hwnnw i'w gael yn Pen. 34 nac yn llawysgrif Roger Morys.²

Gellir amlinellu perthynas y llawysgrifau a drafodwyd yn gryno fel hyn:

PENIARTH 34



¹ gw. *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyf. II, t. 33.

² Diolchaf i Mr. Dafydd Jenkins am dynnu fy sylw at hyn, a phethau eraill.

Y mae defnyddiau Pen. 34 yn cyfateb yn weddol dda i rannau o'r *Ancient Laws*; fe nodir y prif wahaniaethau isod:

Rhaglith: Cyfetyb i baragraff olaf y rhaglith sydd o flaen y Llyfr Prawf mewn rhai testunau o Lyfr Iorwerth, ac eithrio nad enwir mo Iorwerth.

Tair Colofn Cyfraith: Ni roddir yn Naw Affaith Galanas ond y naw affaith a'u cosbau; gw. dechrau'r bennod gyntaf yn *AL*. Book III.

Trioedd: Adrannau crwydrol yw'r rhain, hynny yw, fe'u ceir mewn mannau gwahanol yn y llawysgrifau ac yn wasgaredig drwyddynt, nid yn ddau sypyn.

Damweiniau: 'Casualties', neu 'Case-law'; corff pwysig o gyfraith a geir mewn llawer llawysgrif o Ddull Iorwerth a rhai eraill, e.e., Wynnstay 36 (Q) o Ddull Blegywryd, a Pen. 37 (U) o Ddull Cyfnerth, ond ni cheir testun cyflawn yn y mwyafrif ohonynt; gw. *AL*. Book IV-V.

Mechni (i): Ceir y bennod hon yn llsgrau. Peniarth 30, 35, 40, eithr nid oes ond rhan fach ohoni yn *AL*. Book VIII, sef Chap. xi, §§ 28-9.

Mechni (ii): Y mae hyn yn cyfateb yn helaeth i'r bennod sydd yn Llyfr Iorwerth; gw. *AL*. Book II, Chap. vi.

Mechni (iii): Fe'i gwelir yn *AL*. Book VIII, Chap. i-v.

Cynghawsedd: Y mae'r ffurf sydd yn Pen. 35 yn llawnach na hon; gw. *AL*. Book VII. Llyfr o reolau ynghylch dwyn achos o flaen llys barn yw hwn.

Gwelwyd uchod fod y deddfgrawn wedi datblygu erbyn y bymthegfed ganrif yn llyfr cryno a dosbarthus. Trown yn awr at lawysgrif o'r drydedd ganrif ar ddeg, sef Pen. 35, ac fe welwn ar unwaith fod y defnydd yn llai trefnus a'r rhannau'n fwy digyswllt. Deddfgrawn ar hanner ei gyfansoddi yw hwn—y defnyddiau crai wedi'u rhwymo gyda'i gilydd. Credaf fod saith o ddogfennau rhwng y cloriau, ac er y gall rhai ohonynt fod yn waith yr un copiwr, ni ellir trafod y darnau fel petaent yn rhannau o'r un testun. Wele ddisgrifiad byr o'r llawysgrif:

Testun i=dalennau 1-19; rhwymwyd hwy fel hyn: 1-7 (un ar goll, a hanner y ddalen gyntaf wedi'i thorri ymaith), 8-15, 16-19. Y mae nifer y llinellau ar bob tudalen yn amrywio: 25 hyd 5v, 24 hyd 7r, 25 hyd 15v, 26 ar 16r, 27 hyd 17r, 26 hyd 19r, 27 ar 19v. Ymranna'r testun fel hyn:

- (a) 1r-4r: Rhannau o'r bennod *Mechni (iii)*; gw. *AL*. Book VIII, Chap. i, xi—Chap. ii, iii; Chap. iv. i—Chap. v, iii.
- (b) 4v-8v: Amryw gyngawseddau; fe'u ceir oll ond un yn *AL*. Book VIII, Chap. vi-x.
- (c) 9r-19v: Amrywiaeth; gw. *AL*. Book VIII, Chap. xi, a gopiwyd ohono; ond y mae dyfyniadau o Lyfrau Iorwerth a Blegywryd a rhai manion eraill hwnt ac yma yn y darn hwn na cheir mohonynt yn Book VIII.

Testun ii:=dalennau 20-25; maent yn fyrrach na dalennau'r testunau eraill, a 25 llinell sydd ar bob un. Gellir ei rannu yn dair rhan:

- (a) 20r-23r: Y rhan fwyaf o'r bennod ar fechni yn Llyfr Iorwerth, (sef *Mechni* (ii) yn Pen. 34); gw. *AL*. Book II, Chap. vi.
- (b) 23v-24v: Rhannau o'r bennod *Mechni* (i) a welir yn Pen. 34.
- (c) 24v-25v: Nodiadau ar hawlio: cf. 16r uchod ac *AL*. Book VIII, Chap. xi, xxxi; wedyn, *Hawl Tir a Daeear*, crynodeb o bennod o Lyfr Iorwerth; gw. *AL*. Book II, Chap. xi, viii-x, xv-xvi, xxi, xxx.

Testun iii:=dalennau 26-49; rhwymwyd hwy fel hyn: 26-33, 34-41, 42-49; mae 50-51 yn wag, a diwedd y testun yn eisiau. Mae nifer y llinellau ar bob tudalen yn amrywio. Copi yw hwn o ran o gyfreithiau gwlad Llyfr Iorwerth; gw. *AL*. Book II, Chap. vi, xxx—Chap. xvii.

Testun iv:=dalennau 52-70; ysgrifen a memrwn gwahanol; rhwymwyd fel hyn: 52-59, 60-66, (un ar goll), 67-70; mae nifer y llinellau yn amrywio. Copi o'r Llyfr Cyngawsedd yw'r prif ran o'r testun, sef hyd 68v, ac y mae'n debyg iawn i'r testun sydd yn llgr. Cotton Titus D. ii, 62-70, eithr y mae rhai o'r dalennau wedi newid lle â'i gilydd. Atodiad yw'r gweddill, ac y mae yn hwnnw:

- (a) 68v: darn o ddiwedd y Damweiniau yn Pen. 34, 40.
- (b) 69r-69v: rhan o Naw Affaith Lledrad Llyfr Iorwerth; gw. *AL*. Book III, Chap. ii, xxiii-xxviii.
- (c) 69v-70v: ychydig o drioedd a hawl ac ateb o ddiwedd Llyfr Cynog; (am y Llyfr hwnnw, gw. Pen. 259b, 42r-57r).

Testun v:=dalennau 73-76; (y mae 71-2 yn wag); amrywia nifer y llinellau. Darn bychan o ddiwedd rhyw lawysgrif sydd yma; fe geir ynddo:

- (a) 73r-73v: rhan olaf *Hawl Tir a Daeear* o Lyfr Iorwerth; gw. *AL*. Book II, Chap. xi, xliii-lvi.
- (b) 73v-74r: ffurf o ddechrau *Hawl Tir a Daeear*; gw. *AL*. Book II, Chap. xi, i-viii.
- (c) 74r-75v: manion ynghylch meddiannu tir; (o Lyfr Cyfnerth, efallai?).
- (d) 75v-76v: trioedd a hawl ac ateb o ddiwedd Llyfr Cynog.

Testun vi:=dalennau 77-111; rhwymwyd hwy fel hyn: 77-84, 85-92, (86 yn wag), 93-98, (99-100 yn wag), 101-110, (106 yn wag), 111. Mae nifer y llinellau'n amrywio. Detholion o Lyfr Iorwerth sydd yma eto, ond mewn trefn afreolaidd: 77r-80v=Llygru Yd; 81r-83r=Cyfar; 83v-89v=Naw Affaith Lledrad & Naw Affaith Tân; 90r-98r=Gwagedd; 98v=Plant; 101r-111v=Gwerthoedd, ac y mae diwedd y darn hwn yn eisiau. Fe welir y darnau i gyd yn *AL*. Book III, Chap. xxv, Chap. xxiv, Chap. ii-iii; a Book II, Chap. i, Chap. xxviii; a Book III, Chap. iv-ix, Chap. xii-xiv, Chap. xix-xxiii.

Testun vii: = dalennau 112–119; nifer y llinellau'n amrywio, fel arfer; rhwymwyd y sypyn hwn wrth y ddalen flaenorol, sef rhif 111, a oedd wrth ei hunan; mae diwedd y testun hwn hefyd yn eisiau. Damweiniau, Adran (i) sydd yma, copi efallai o'r testun sydd ar ddiwedd Pen. 37; (am hwnnw, gw. Wade-Evans, *Y Cymmrodor*, xvii, 129–163, ac *AL*. Book IV, Chap. i–iv, xxiv).

Ar glawr Pen. 35 y mae darn o bapur ac arno'r enw *Cynawg*, ac ar ddalen o femrwn glân o flaen y testun fe geir y nodiad hwn yn llaw William Maurice: 'CYN. yw arwydoccaad yr hanner cyntaf ir llyfr hwn(n) yn Neddf=grawn W:M. Canys ysgrifenedig yw fal hynn (pag 76. infra) Ac felly y teruyna llyfyr Cynawc. Arwydd yr eil=rhann yw AD=CYN. Hwn ei gyd a goppiwyd, neu a gymharwyd ar Gyfr. oedd eisioes yn 'scrifenedic, y gann W. Maurice 1662'. Y mae'n amlwg bod William Maurice yn tybio mai dwy ran o'r un testun oedd y dalennau 1–49 a 73–76, ac mai Cynog oedd awdur hynny i gyd. Fe sylwodd, wrth gopïo Cyn., fod rhannau ohono i'w cael mewn llawysgrifau eraill, ond er hynny fel rhannau o Lyfr Cynog y sonnir amdanynt. Wele rai o'i nodiadau yn Wynnstey 38:

- 374r: (wrth ddechrau copïo Pen. 35) 'Transcript ex vetustiss Cod. membran. nunc in Biblioth. Vachaniana senescente . . . yr oedd coll ynech(r)au y llyfr hen yr oedd peth o hono, s. am fach a mechni, gennifi yn Alpha. cais yno'.
- 386v: (ar ôl copïo 4v–19v) 'sic usque ad pag. 20. Mae yma lawer or llyfr Cyn. wedi adel heb ysgrifennu, oblygid eu bod eusus wedi eu coppio yn fy llyfr Alpha. Eithr yn niwedd y Cynghawseddeu yno y mae fal hynn. p. 68b. Dextra scriptoris careat gravitate doloris. In Nomine Dei Amen'.
- 388r: (ar ôl copïo 68v–70v) 'weithian y canlyn yr hyn oedd yn ddiwaethaf yn Lib. Cyn. ai henw wrthaw, ar ol y Coll, fal hynn, ag or un llaw a'r cyntaf uchod'.
- 391r: (ar ôl copïo 73r–76v) 'Yr oedd wedi hynn lawer o Gyfr'. yn y llyfr uchod (a rhai Dalenneu Memrwn yn golledig ymysg y llai) yn cytuno air yngair ar un petheu yn Lib. Alpha, ac ar Damweiniau yn Llyfr Morgenau uchod. Cais yno, adolwg. W.M.'

Y mae'n rhyfedd nad yw William Maurice yn cyfeirio yma at destun arall o'r enw Llyfr Cynog sydd ganddo yn ei Ddeddfgrawn; fe geir hwnnw yng nghanol *Lib. Ponf.*, sef copi o Pen. 259b. Ar y ddalen 438r fe welir y geiriau hyn: 'Llyma Derfyn Llyfr Praw, A Llyfr Cynawc. (sic org. als Llyma Ddechreu Llyfr Cynawc)'; ac y mae'r testun sy'n dilyn yn dechrau â'r 'Saith Esgobawd ysydd dann Dewi'; gorffenna ar 451v gyda'r geiriau 'Yma y terfyna Llyfyr Cynawg'. Eto yn y Ddeddfgrawn, o dan y pennawd 'Excerpta ex Lib. Frag.', fe geir ar 183v 'ex eodem Cod. sic. Llyma ddechrau llyfyr kynawc', ac fe'i dilynir gan y paragraff am saith Esgobawd Dewi. Y mae paragraff yn Pen. 35 sy'n cyfateb yn weddol i hwn, ond yno ceir *Seith escobty yssyd yn dyuet*, ac y mae'n debycach i'r paragraff yn *Llyfr Blegywryd*, t. 84, ac *AL*. (*Dimetian Code*) Book II, Chap. xxiv, ac efallai'n ddyfyniad o

hwnnw. Mwy na hynny, nid oes yn Pen. 35, 13r un gair am Gynog, ond yn hytrach fe gyflwynir y paragraff fel hyn: 'Llyma urodyeu yn amser hywel da a uarnavd iustiaus yny heneint pryt na dywedei gelwyd dim. ac a ossodes bledric'. Yn *Lib. Ponf.* y cawn destun o Lyfr Cynog i gyd, felly.

Ar ôl cymharu Pen. 35 a 259b, y mae'n ddiogel bellach nad oes ond rhan fach iawn o Lyfr Cynog yn *Lib. Cyn.* William Maurice, a hynny'n ddyfyniad o'i ddiwedd. Y mae dwy ffurf o'r dyfyniad hwnnw yn Pen. 35, sef y rhan (c) yn y *Testun iv* a'r rhan (d) yn y *Testun v.* Diddorol yw canfod mai yn union o flaen Llyfr Cynog yn Pen. 259b y ceir rhan (c) o'r *Testun v.* Y mae gennym yn Pen. 35 felly ddarn o ddiwedd Llyfr Cynog, ac o'i flaen ddarn o'r testun yr ychwanegwyd Llyfr Cynog ato.—Mewn llawysgrifau o Ddull Blegywryd a Chyfnernth y mae chwilio am olion gwaith Cynog, yn hytrach na Dull Iorwerth.

Pan ddaeth Aneurin Owen i drafod Pen. 35 fe welodd mai llyfr cyfansawdd ydoedd, ond fe ymfodlonodd ar un byrfodd (G) i ddynodi'r cwbl, a byr yw ei ddisgrifiad yn rhagymadrodd *AL.*: 'In this volume are bound together parts of five different Manuscripts of various eras. One of them, of about the beginning of the thirteenth century, has furnished a valuable collation to that found in *B.*, of the *Cynghavsedd* or Pleadings, forming Book v. (*sic*; gwall am *vii*). Some of the remainder relate to the Venedotian, others to the Dimetian forms of the Laws. These later ones were transcribed about the fifteenth century, and mostly bear either autographs, or some tokens of being found in North Wales. This volume forms part of the Hengwrt collection'. Ychydig iawn o'r llawysgrif a ddefnyddiwyd gan Owen; troednodion yn *AL.* Book IV a VII, a rhannau o Book VIII. Sylwodd Gwenogvryn Evans ar hynny, a rhoes ef fwy o sylw iddi yn ei *Report* (*RWM.* i, 367-9). ond er hynny ni sylweddolodd yntau mai llawysgrif gyfansawdd ydoedd, ac eithrio bod ôl dwy law wahanol arni.

Yr unig adran yn *AL.* sydd yn seiliedig ar Pen. 35 yw Book VIII; testun yw hwnnw a luniwyd ohoni hithau a Pen. 34; o Pen. 34 y daw'r penodau i-iv, ac o Pen. 35 y daw'r gweddill, gan orffen gyda'r frawddeg honno sy'n enwi Cynog. Y mae'n amlwg bod Owen wedi ceisio cael rhyw fath o gysondeb ac unoliaeth trwy ddethol darnau tebyg i'w gilydd o ran sylwedd, ac fe'u rhoes hwy i gyd o dan y pennawd *Cynghavsedd*—ymgais, yn ôl pob tebyg, i adlunio Llyfr Cynog. Pe na bai William Maurice wedi rhoi cymaint o sylw i'r cyfeiriad hwnnw at Lyfr Cynog, efallai y byddai wedi gweld mai enghraifft oedd Pen. 35 o'r un math o waith ag yr oedd yntau yn ei wneud wrth hel ei Ddeddfgrawn at ei gilydd.

(Am waith William Maurice, sef y *Deddfgrawn*, gw. erthygl Mr. Dafydd Jenkins yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyf. II, tt. 33-36.)

ALED I. R. WILIAM.